OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1556

# Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 4

## Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Ddomestig

**Diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

**10.**—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio, i'r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorer paragraff (1A).

(3) Yn rheoliad 5—

(a) yn lle paragraff (2)(b) rhodder—

"(b) yn cynnwys datganiad gan Weinidogion Cymru o'r gyfradd am y cyfnod hwnnw;";

(b) hepgorer paragraff (3).

(4) Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 15 mewnosoder—

"**Trosi, aredig neu ailhadu tir a ddynodwyd yn laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif**

**16.**—(1) Ni chaiff buddiolwr drosi, aredig neu ailhadu darnau penodol o laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif ond—

(a) os yw hysbysiad y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i'r buddiolwr aredig neu drosi darnau penodol o'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; neu

(b) os yw'r caniatâd i wneud hynny wedi ei roi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif" ("*environmentally sensitive permanent grassland*") yw—

(a) glaswelltir a leolir mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; a

(**1**) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86), O.S. 2016/1154, O.S. 2017/565 (Cy. 134), O.S. 2019/688 (Cy. 132) o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ymlaen, ac O.S. 2020/104 (Cy. 17).

(b) glaswelltir y mae'n ofynnol cael caniatâd ysgrifenedig i aredig mewn perthynas ag ef yn unol ag adran 28E(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**2**) ond nad yw caniatâd o'r fath wedi ei gael;

mae i "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" yr ystyr a roddir i "*site of special scientific interest*" yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981."

**Diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014**

**11.**—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014(**3**)wedi eu diwygio, i'r graddau ag y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "competent authority", hepgorer ", except as otherwise provided by regulation 3,".

(3) Yn rheoliad 3 (awdurdod cymwys)—

(a) hepgorer paragraffau (2) i (3A);

(b) yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) In this regulation, "holding" has the meaning given by Article 4(1)(b) of the Direct Payments Regulation.".

**Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015**

**12.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(**4**) wedi eu diwygio, i'r graddau ag y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) mae'r ddarpariaeth bresennol wedi ei hailrifo fel paragraff (1);

(b) ar ddechrau'r paragraff (1) a ailrifwyd, mewnosoder "Yn ddarostyngedig i baragraff (2),";

(c) ar ôl y paragraff (1) a ailrifwyd mewnosoder—

"(2) Caniateir i daliadau uniongyrchol gael eu rhoi i ffermwr pan fo arwynebedd cymwys y daliad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn llai na 5 hectar os oedd taliadau uniongyrchol wedi eu hawlio gan y ffermwr hwnnw yn 2020 neu'n ddyledus iddo bryd hynny—

(a) cyn cymhwysiad Erthygl 63 o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013; a

(b) mewn cysylltiad â daliad o'r fath (fel y'i diffinnir ar gyfer blwyddyn hawlio 2020)—

(i) a leolir yng Nghymru ac o leiaf un diriogaeth arall;

(ii) pan fo arwynebedd cymwys a leolir yng Nghymru y daliad hwnnw yn llai na 5 hectar; a

(iii) yr oedd taliad wedi ei hawlio neu'n ddyledus mewn cysylltiad â'r arwynebedd cymwys a leolir yng Nghymru."

(3) Hepgorer rheoliad 9.

(**2**) 1981 p. 69.
(**3**) O.S. 2014/3263, a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/1325. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**4**) O.S. 2015/1252 (Cy. 84), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86), O.S. 2019/688 (Cy. 132) o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ymlaen, ac O.S. 2020/104 (Cy. 17).

(4) Yn rheoliad 10—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "Erthygl 24 neu";

(b) hepgorer paragraffau (3) a (4).

(5) Yn rheoliad 11(3), yn lle "30 Ebrill" rhodder "15 Mai".

(6) Hepgorer rheoliadau 14 i 16, a 19.